I S - D D E D D F W R I A E T H C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 2

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontdolgoch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Ionawr 2026* |
| *Yn dod i rym* | *12 Ionawr 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontdolgoch, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Ionawr 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau gwasanaeth cynnal a chadw y gaeaf neu gerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S U B O R D I N A T E L E G I S L A T I O N

# NWSI 2026 No. 2

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (Pontdolgoch, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 January 2026* |
| *Coming into force* | *12 January 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (Pontdolgoch, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 12 January 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance service vehicles or vehicles being used in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 12 Ionawr 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caersŵs i Fachynlleth.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd ym Mhontdolgoch, Powys sy’n ymestyn o’i chyffordd â’r B4568 hyd at y gilfan y tu allan i’r eiddo o’r enw ‘Maesgwyn’ (tua 570 o fetrau i’r gogledd-orllewin o bont reilffordd Pontdolgoch).

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn ei dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 7 Ionawr 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A470 Caersŵs to Machynlleth trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 12 January 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road at Pontdolgoch, Powys that extends from its junction with the B4568 to the lay-by outside the property called ‘Maesgwyn’ (approximately 570 metres north-west of Pontdolgoch railway bridge).

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 7 January 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government